



Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion sydd ar y brifysgol a'i cholegau a'i hadrannau o ran nodi, defnyddio a chynnal a chadw systemau gwasgedd yn y gwaith.

Mae'r polisi'n berthnasol i:

- *Y brifysgol a'i cholegau a'i hadrannau.*
- *Pob system wasgedd yn unol â diffiniad Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd 2000 (fel y'i diwygiwyd).*
- *Silindrau nwy cludadwy a chynwysyddion gwasgedd yn unol â diffiniad Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Cyfarpar Gwasgedd Cludadwy 2009 (fel y'i diwygiwyd).*
- *Asetylen yn unol â diffiniad Rheoliadau Diogelwch Asetylen.*

Nid yw'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:

- *Systemau dan wactod.*
- *Cynnwys (e.e. gwenwyndra/hylosgedd) y system/llestr wasgedd. Gofynnir am asesiad risg ar wahân lle bo'r angen.*
- *Systemau sy'n dod dan y Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol.*
- *Silindrau nwy sy'n eiddo i gyflenwyr ac sy'n ardystiedig ganddynt.*

Mae'r polisi hwn, a'i drefniadau cysylltiedig, yn cymryd lle OHSU G12 (1995).

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch:	12 Tachwedd 2014
Dyddiad gweithredu:	13 Tachwedd 2014

1. DATGANIAD POLISI

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ond yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion statudol ac arfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i'r brifysgol.

2. RHAGARWEINIAD

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol hynny dan y gyfraith, mae gan y brifysgol a'r colegau a'r adrannau sy'n perthyn iddi, ymrwymiad penodol dan y Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd ac elfennau perthnasol o'r Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Cyfarpar Gwasgedd Cludadwy (2009) i sicrhau addasrwydd, defnydd diogel, archwilio a chynnal a chadw systemau/llestri gwasgedd.

AT DDIBENION Y POLISI HWN, DEFNYDDIR Y TERM CYFFREDINOL 'SYSTEM'.

3. CEFNDIR A GWYBODAETH

Pwysau ar ardal benodol yw gwasgedd, ac mae'n fath o ynni, ac os caiff ei drin yn anghywir gall arwain at ganlyniadau trychinebus, gan achosi effeithiau tebyg i effeithiau ffrwydrad. Dyna pam y caiff systemau yn y gwaith eu rheoli trwy'r Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd a'r Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Cyfarpar Gwasgedd Cludadwy 2009.

Nod y rheoliadau yw atal y perygl o anaf difrifol o ynni wedi ei storio o ganlyniad i fethiant y system gyfan neu ran ohoni. Yn ogystal â bod yn berthnasol i'r system ei hun, mae'r rheoliadau hefyd yn berthnasol i bob dyfais amddiffynnol gysylltiedig, e.e. rheoleiddwyr a rhai pibellau.

Mae'n hanfodol bod gweithdrefnau cadarn addas ar waith i sicrhau bod systemau yn ddiogel i'w defnyddio gyda gwaith cynnal a chadw dilynol, archwiliadau a'r gweithredu'n cael ei wneud gan unigolion sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ymgymryd â'r dasg a bennwyd.

Bydd rhai systemau, yn dibynnu ar eu natur, hefyd yn gofyn am archwiliadau ffurfiol a chynllun archwilio ysgrifenedig (gweler adrannau 5 a 7).

4. TERMINOLEG A DIFFINIADAU

At ddibenion y polisi hwn, mae'r termau a'r diffiniadau isod yn berthnasol:

- i. *Peiriannydd cymwys*: Unigolyn (unigolyn cymwys dan y Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd) a benodir gan archwilydd peirianeg y brifysgol (trwy'r swyddog yswiriant) i lunio, ardystio ac archwilio'n ffurfiol y systemau yn erbyn y cynllun archwilio ysgrifenedig ac sy'n cynhyrchu adroddiad peiriannydd y darparwr yswiriant.
- ii. *Unigolyn enwebedig*: Aelodau staff a benodir gan y coleg/ysgol/adran i ymgymryd â'r dyletswyddau a amlinellir yn *Adran 8(h)*.
- iii. *Unigolyn technegol*: Aelod staff/cyflenwr/contractwr gyda'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r gwaith, e.e. archwiliadau, cynnal a chadw, gosod, comisiynu/digomisiynu.
- iv. *Swyddog yswiriant y brifysgol*: Wedi ei leoli yn Adran Gyllid y brifysgol. Aelod staff a benodir i gysylltu ag archwiliwr peirianeg y brifysgol a'r peiriannydd cymwys pan gaiff ei hysbysu am system berthnasol gan goleg/ysgol/adran.
- v. *Amserlen*: Cronfa ddata ganolog a ddelir ac a gynhelir gan y swyddog yswiriant o holl systemau perthnasol y brifysgol a hysbysir gan goleg/ysgol/adran.

vi. Yn unol â'r Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd, mae system/llestr wasgedd yn cynnwys:

Term	Yr hyn y mae'n cyfeirio ato
<i>Hylif perthnasol</i>	<ul style="list-style-type: none"> • <u>Unrhyw ager (ar unrhyw wasgedd)</u> • Unrhyw nwy neu gymysgedd o nwyon ar wasgedd uwch na 0.5 bar (uwch na gwasgedd atmosfferig) • Unrhyw hylif a allai droi yn nwy gyda gwasgedd uwch na 0.5 bar uwchben gwasgedd atmosfferig • Dŵr poeth wedi ei storio/wedi ei gadw uwchben y pwynt berwi ar wasgedd atmosfferig os caiff gwasgedd anwedd uwchben 0.5 bar ei greu • Nwy wedi ei hydoddi dan bwysau mewn hydoddydd ar dymheredd amgylchynol ac y gellid ei ryddhau heb wres (e.e. asetilen)
<i>Pibellau</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Pibell neu system o bibellau a gwasgedd cysylltiedig sy'n cynnwys cydrannau a ddefnyddir i gludo hylif perthnasol, e.e. falfiau, pypiau, cywasgwyr, pibell, megin
<i>Piblinell</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Pibell, system o bibellau a ddefnyddir i gludo hylif perthnasol • Cydrannau a ddefnyddir i gynorthwyo llif hylif perthnasol trwy ran o'r bibell neu'r system, e.e. falfiau, cywasgwyr, dyfeisiau eraill a ddefnyddir i wneud i nwy lifo • Prif falf ddiffodd ar bob pen i'r bibell
<i>Dyfeisiau amddiffynnol</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Dyfeisiau a gynlluniwyd i amddiffyn system sy'n cynnwys neu'n debygol o gynnwys hylif perthnasol yn erbyn methiant yn y system neu rai a gynlluniwyd i roi rhybudd o fethiant (e.e. disg chwythu, falf ryddhau gwasgedd) • Yn cynnwys rheolyddion
<i>Gwasgedd</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi ei ddiffinio fel a ganlyn: y grym arferol fesul ardal uned a fyddai'n cael ei roi gan hylif yn symud ar wrthrych bychan wedi ei drochi ynddo petai'r gwrthrych yn cael ei gludo gyda'r hylif. Mewn pascalau (Pa) mae uned Si ond cyfeirir ati fel Psi neu Bar. • Gwasgedd gweithio diogel, lefel y gwasgedd y mae'r system/llestr wedi ei chynllunio i weithredu arno (cyfeirir ato weithiau fel uchafswm gwasgedd gweithredu, MOP neu wasgedd gweithio derbyniol uchaf, MAWP). Caiff ei fesur mewn gwasgedd atmosfferig, fel yr uchod.
<i>System wasgedd</i>	<ul style="list-style-type: none"> • <u>Unrhyw ager (ar unrhyw wasgedd)</u> • Y canlynol os yw'n cynnwys hylif perthnasol gyda gwasgedd gweithio derbyniol uchaf sy'n uwch na 0.5 bar (uwchben gwasgedd atmosfferig): <ul style="list-style-type: none"> ○ System sy'n cynnwys un neu fwy o lestri gwasgedd anhyblyg, sy'n gysylltiedig â phibellau a dyfeisiau amddiffynnol ○ Pibellau gyda'i dyfeisiau amddiffynnol y mae cynhwysydd gwasgedd cludadwy wedi ei gysylltu â hwy, neu y bwriedir ei gysylltu â hwy. ○ Piblinell a'i dyfeisiau amddiffynnol

1 Bar = 14.504 PSI

5. HYSBYSIAD I SWYDDOG YSWIRIANT Y BRIFYSGOL

Yn unol â'r Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd, bydd rhaid wrth archwiliad ffurfiol gan beiriannydd cymwys i rai systemau. Trefnir hyn yn y brifysgol trwy'r swyddog yswiriant sy'n cadw rhestr ganolog o bob system berthnasol yn y brifysgol a hysbysir gan golegau/ysgolion/adrannau.

Er mwyn sicrhau bod y rhestr yn gyfredol a bod y peiriannydd cymwys yn ymwybodol o'r systemau sy'n rhaid eu harchwilio'n ffurfiol, mae'n hanfodol bod colegau/adrannau/ysgolion yn rhoi gwybod am bob system newydd, bob system segur a bob system wedi'i haddasu i'r swyddog yswiriant gan ddefnyddio'r ffurflen PSR1 sydd ynghlwm.

Angen hysbysiad?	
<u>OES</u>	<p>i. <u>Pob eitem sy'n cynnwys ager</u> (uwch na gwasgedd atmosfferig)</p> <p>ii. Llestri gwasgedd sy'n cynnwys hylif perthnasol ac eithrio ager gyda gwasgedd x cynnyrch cyfaint o 250 litr bar neu fwy</p> <p>iii. Mathau 'anarferol' o offer sy'n cynhyrchu ager yn awtomatig dan wasgedd e.e. awtoclafau, poptai gwasgedd, peiriannau coffi barrista</p> <p>iv. Yn y brifysgol, yr holl reoleiddwyr sylfaenol, e.e. y rhai sydd ynghlwm wrth gynhwysydd nwy cludadwy dan wasgedd neu'r rhai wedi'u cynllunio i reoleiddio llif hylif perthnasol ar hyd piblinell/pibellau. Er enghraifft, silindrau mewn cawell allanol sy'n bwydo hylif perthnasol i labordy, yn uniongyrchol neu drwy manifold</p> <p>v. Unrhyw system 'wedi ei hadeiladu neu ei chynllunio' gan goleg/ysgol/adran ac sy'n cyflawni'r meini prawf a ddisgrifir yn i-iv uchod</p> <p>NODYN: <i>Efallai y bydd rhaid i'r peiriannydd cymwys baratoi cynllun archwilio ysgrifenedig cyn defnyddio unrhyw system a ddisgrifir yn i-iii uchod am y tro cyntaf</i></p>
<u>NA</u>	<p>i. Os bydd gwasgedd yr hylif perthnasol (ac eithrio ager) yn disgyn islaw 0.5 bar ar hyd y biblinell neu'r pibellau</p> <p>ii. Os oes gan y system wasgedd (ac eithrio ager) wasgedd x cynnyrch cyfaint llai na 250 litr bar (<i>os ydych yn ansicr neu oes gennych bryder mawr am hyn, rhowch wybod am yr eitem a chewch gyngor wedyn gan y peiriannydd</i>).</p> <p>iii. Rheoleiddwyr eilaidd, h.y. y rhai sydd wedi eu cysylltu am i lawr</p>

Lle bo amheuaeth - rhowch wybod am yr eitem a chewch gyngor gan y peiriannydd cymwys

6. GOFYNION Y BRIFYSGOL

Bydd y brifysgol yn darparu cyngor ac adnoddau i sicrhau bod archwiliadau statudol yn cael eu cynnal gan beiriannydd cymwys (unigolyn cymwys) ar systemau perthnasol fel y nodir yn Adran 5 .

7. CYNLLUN ARCHWILIO YSGRIFENEDIG

Bydd rhaid wrth gynllun archwilio ysgrifenedig ffurfiol i amryw o systemau. Dogfen yw cynllun archwilio ysgrifenedig a gaiff ei llunio gan unigolyn cymwys ac mae'n cynnwys gwybodaeth am offer neu gyfarpar dethol sy'n rhan o system wasgedd, sy'n gweithio dan wasgedd ac sy'n cynnwys ager neu hylif perthnasol.

Unwaith y caiff system ei hysbysu yn unol ag Adran 5, bydd y peiriannydd cymwys (unigolyn cymwys) yn llunio cynllun archwilio ysgrifenedig, lle bo'r angen. Bydd copi o'r cynllun archwilio ar gael i'r unigolyn enwebedig.

8. GOFYNION POB COLEG/ADRAN

Mae gofyn i bob coleg ac adran gyflwyno a monitro systemau er mwyn sicrhau bod systemau perthnasol y maent yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- a) Defnyddir cyflenwyr cymwys i brynu, llogi, gosod/comisiynu a digomisiynu systemau.
- b) Bod y systemau yn addas i'r amgylchedd y cânt eu defnyddio ynddo gyda chyngor gan yr Adran Ystadau a Chyfleusterau neu'r peiriannydd cymwys, lle bo'n briodol e.e. mwy o berygl tân, pryderon llwytho strwythurol, offer codi sy'n angenrheidiol i symud system.
- c) Os bydd angen, bydd y peiriannydd cymwys yn paratoi cynllun archwilio ysgrifenedig ac ni ddylid defnyddio'r eitem nes bydd y cynllun yn barod.
- d) Bod systemau wedi eu labelu'n glir, e.e. labeli archwiliadau, cyfyngiadau gweithredu diogel (os oes angen) wedi eu harddangos, nwyon pibell wedi'u marcio'n glir gyda'u cynnwys a chyfeiriad y llif.
- e) Dim ond staff cymwys ac awdurdodedig sy'n gweithredu'r systemau.
- f) Bod unigolyn technegol yn cynnal a chadw ac yn archwilio'r systemau yn unol â gofynion y gwneuthurwr a'r rhai a nodir yn y cynllun archwilio ysgrifenedig, lle bo hynny'n berthnasol.
- g) Bod y swyddog yswiriant yn cael ei hysbysu am y systemau, yn ôl y gofyn.
- h) **Penodir unigolyn enwebedig (gall fod yn unigolyn technegol)** a fydd yn gwneud y canlynol:
 - i. Hysbysu swyddog yswiriant y brifysgol am systemau gwasgedd yn y coleg/adran sy'n newydd/segur/wedi newid (**gan gynnwys rheoleiddwyr sylfaenol**) gan ddefnyddio'r ffurflen PSR1, yn ôl y gofyn.
 - ii. Cadw cofnod o'r systemau.
 - iii. Sicrhau bod unigolyn technegol yn gwneud yr holl waith cynnal a chadw ac archwilio.
 - iv. Aros gyda'r peiriannydd cymwys a/neu'r unigolyn technegol (yn ôl y gofyn) tra byddant yn archwilio, profi a/neu gynnal a chadw'r systemau.
 - v. Derbyn a chadw cofnodion o archwiliadau, gwaith cynnal a chadw, adroddiadau'r peiriannydd cymwys, cynlluniau archwilio ysgrifenedig a gweithdrefnau gweithredu diogel.
 - vi. Cadw rhestr o weithredwyr cymwys, fel y bo'n briodol.
 - vii. Arddangos a chadw 'rhestr o ddefnyddwyr awdurdodedig' os yw hynny'n ofynnol gan y cynllun archwilio ysgrifenedig neu oherwydd lefel y risg neu gymhlethdod y system a gaiff ei gweithredu.
 - viii. Sicrhau bod labeli archwilio (*gweler y crynodeb*) a chyfyngiadau gweithredu diogel yn ddarllenadwy ac yn sownd.
 - ix. Gweithredu ar gamau gweithredu neu argymhellion a wnaed gan y peiriannydd cymwys neu'r unigolyn technegol, trefnu gwaith adfer yn ôl yr angen.
 - x. Sicrhau bod silindrau nwy sy'n eiddo i gyflenwyr (e.e. BOC, Air Products) wedi eu hardystio gan y cyflenwr ac yn cael eu dychwelyd o fewn cyfnod yr ardystiad.
 - xi. Sicrhau bod yr holl reoleiddwyr (sylfaenol ac eilaidd) yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u disodli neu eu gwasanaethu fel y nodir gan farc y gwneuthurwr (pob 5 mlynedd fel rheol).
 - xii. Sefydlu gweithdrefnau i sicrhau na ellir defnyddio systemau os ydynt yn ddiifffgiol a bod y bobl berthnasol yn cael eu hysbysu ar unwaith os gallai'r camau a nodwyd yn (vii) effeithio ar eu gweithgareddau.

Yn achos systemau y mae'r Adran Ystadau a Chyfleusterau yn gyfrifol amdanynt ond sydd wedi eu lleoli mewn coleg/adran, rhaid i bob coleg/adran sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:

- i) Gweithredu'r systemau'n ddiogel.
- j) Cydweithio a chyfathrebu â'r Adran Ystadau a Chyfleusterau, e.e. rhoi mynediad at systemau, addasiadau.
- k) Rhoi gwybod am namau ar y system ar unwaith i'r Adran Ystadau a Chyfleusterau, a fydd yn mynd i'r afael â'r namau yn brydlon.

9. GOFYNION Y SWYDDOG YSWIRIANT

Bydd swyddog yswiriant y brifysgol yn cadw 'rhestr' ganolog ar gyfer systemau yn y brifysgol a hysbysir gan golegau/adrannau. Yn ogystal, bydd y swyddog yswiriant hefyd yn gwneud y canlynol:

- a) Diweddarau'r 'rhestr' yn ôl yr angen pan ddaw hysbysiad am systemau newydd/segur/wedi newid.
- b) Rhoi gwybod i'r archwiliwr peirianeg a'r peiriannydd cymwys a benodwyd am y systemau ac am unrhyw rai sydd angen eu hychwanegu, eu dileu neu eu diwygio ar y 'rhestr'.
- c) Sicrhau y rhoddir manylion cyswllt yr 'unigolyn enwebedig' i'r archwiliwr peirianeg er mwyn sicrhau bod adroddiadau'r peiriannydd cymwys a gwybodaeth berthnasol yn cael eu cyfleu (yn electronig fel arfer).
- d) Cyfathrebu â cholegau/adrannau ynglŷn â'r systemau yn ôl y gofyn.
- e) O bryd i'w gilydd adolygu/archwilio'r 'rhestr' i gadarnhau bod yr holl systemau perthnasol wedi cael eu harchwilio gan y peiriannydd cymwys fel y bo'n briodol.

10. CYFRIFOLDEBAU STAFF A MYFYRWYR

Yn union fel y dyletswyddau sydd ar y brifysgol a'i cholegau/adrannau, mae gan staff a myfyrwyr hefyd gyfrifoldebau dan y gyfraith. O ran y polisi hwn a defnyddio systemau'n ddiogel, mae'n rhaid i staff a myfyrwyr wneud y canlynol:

- a) Dilyn yr holl ddulliau rheoli a bennir gan eu coleg/adran.
- b) Dim ond defnyddio'r systemau y maent wedi cael cyfarwyddyd a/neu hyfforddiant ac awdurdod i'w gweithredu.
- c) Peidio byth â symud na chysylltu silindrau nwy cludadwy heb awdurdod i wneud hynny.
- d) Peidio â chamdefnyddio neu ymyrryd â systemau yn eu man gwaith.
- e) Adrodd ar unwaith am unrhyw ddiffygion ar systemau i unigolyn dynodedig/enwebedig.

11. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â'r polisi hwn a chyda'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol.

Rhaid i golegau/adrannau adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain bob hyn a hyn, i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu gweithredu, eu bod yn addas, ac yn effeithiol.

Yn ogystal, gall Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y brifysgol o bryd i'w gilydd adolygu effeithiolrwydd system y brifysgol ar gyfer rheoli llestri/systemau gwasgedd yn y gwaith.

Diwedd.

Ffurflen gofrestru system/lestr wasgedd (Ffurflen PSR1)

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i gofrestru a dadgofrestru system/llestr wasgedd ac i hysbysu am newidiadau i systemau. Llenwch y ffurflen yn electronig a'i dychwelyd fel y nodir isod.

1. Cofrestru system wasgedd newydd / 2. Newidiadau i system wasgedd / 3. Dadgofrestru (<i>dilëwch 1., 2., neu 3. fel y bo'n briodol</i>)			
SYSTEM/LLESTR WASGEDD			
Oed y system wasgedd (amcangyfrif)			
Gwneuthuriad a model			
Math o offer (e.e. awtoclaf)			
Rhif cyfresol			
Cyfeirnod y tag adnabod			
Capasiti'r system			
Cynnwys y system (e.e. argon)			
Gwasgedd gweithio (litrau bar neu PSI)			
A yw'n rhan o system wasgedd yr adeilad, h.y. wedi ei adeiladu i mewn i'r adeilad? (rhowch gylch)	YDY	NAC YDY	
Dyddiad disodli/dod i ben (os yw ar gael)			
Newidiadau - rhowch grynodedb			
LLEOLIAD YR EITEM			
Coleg/ysgol/adran			
Enw'r adeilad			
Rhif llawr			
Rhif ystafell			
MANYLION CYSYLLTU'R COLEG/YSGOL/ADRAN			
Manylion cysylltu'r defnyddiwr	Enw:		
	Rhif Estyniad:		E-bost:
Manylion cysylltu'r unigolyn enwebedig	Enw:		
	Rhif Estyniad:		E-bost:
Dyddiad			
Anfonwch y ffurflen wedi ei llenwi fel atodiad at c.benson@bangor.ac.uk gyda chopi i healthandsafety@bangor.ac.uk os yw'r system yn effeithio ar isadeiledd yr adeilad			

ENGHREIFFTIAU CAM WRTH GAM:

Dylai'r enghreifftiau canlynol fod o gymorth i benderfynu a ddylid hysbysu am system wasgedd:

Enghraifft 1



Cywasgwr aer (ffres) bychan gyda gwasgedd gweithredu diogel o 120 Psi a llestr gyda capasiti o 2 litr.

$$120 \text{ Psi} \div 14.504 \text{ (bar)} = 8.27 \text{ bar}$$

$$8.27 \text{ bar} \times 2 \text{ (capasiti litrau)} = 16.5 \text{ Bar/Litr}$$

Nid oes rhaid hysbysu amdano i'r peiriannydd cymwys ond mae'n rhaid cynnal archwiliad lleol o'r nodweddion diogelwch a phrofi'r falf ryddhau gwasgedd (gweler y wybodaeth ddiogelwch allweddol i ddyfeisiau ar wefan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch).

Enghraifft 2

Drwm diheintio crwn (i ddiheintio offer meddygol), a geir yn aml mewn labordai biolegol cell.

Mae'r diheintydd yn defnyddio ager i ladd bacteria. Mae'n rhaid ei hysbysu oherwydd bod yr ager uwchben gwasgedd atmosfferig . Defnyddiwch ffurflen PSR1.

Nodyn: Dylid hysbysu am bob system ager (dan wasgedd nominal neu fwy) gan ddefnyddio ffurflen PSR1.



Enghraifft 3

AIR COMPRESSOR			
Model No. TA-TD2540HP	Voltage 240V	Hz 50	Air Displacement 196L/Min.
Amp 8	Phase 1	Stage 1	Free Air Displacement 125L/Min.
Tank/Litre 40	Duty Cycle 50%	Work Pressure 115PSI	Date Manufactured 07-2009
TRACKING NO.:	13346-0829		

40 capasiti litrau x 7.9 bar (115 Psi ÷ 14.504)

= 316 Bar/Litr a dylid hysbysu amdano trwy ddefnyddio ffurflen PSR1.

Lle bo amheuaeth - rhowch wybod am yr eitem a chewch gyngor gan y peiriannydd cymwys